
**ADRAN A**

1 Faint yw 2011 + (+2011) + (−2011) − (+2011) − (−2011)?

a) 0 b) 2011 c) 4022 ch) 6033 d) 8044

2 Pa ffracsiwn o'r sgwâr mawr yw'r rhan sydd wedi ei thywyllu?




a) $^1/_2$ b) $^1/_3$ c) $^1/_4$ ch) $^1/_5$ d) $^1/_6$

3 Pa un o'r canlynol yw'r cyfnod hiraf?

a) 3024 awr b) 125 diwrnod c) 17 wythnos

ch) 4 mis d) $^1/_3$ o flwyddyn

4 Rwy'n gwneud toriad syth i dorri pentagon rheolaidd yn ddau ddarn. Pa un o'r rhain sy'n amhosibl ei greu?




a) 1 triongl ac 1 hecsagon b) 2 bedrochr c) 1 triongl ac 1 pedrochr

ch) 1 triongl ac 1 pentagon d) 2 driongl

5 Mae cwpwrdd dillad Eifion yn cynnwys 2 grys glas a 2 grys gwyn. Heb edrych, mae Eifion yn dewis 2 grys o'r cwpwrdd. Beth yw'r tebygolrwydd bod y crysau hyn o'r un lliw?

a) $^1/_2$ b) $^1/_3$ c) $^1/_4$ ch) $^1/_5$ d) $^1/_6$

6 Yn y triongl hwn, cymedr yr onglau *A* a *B* yw *C*. Faint yw gwerth *C*?





a) 50º b) 60º c) 70º ch) 80º
d) mae angen mwy o wybodaeth

7 Ar hyd llwybr 12 km i ben mynydd rwyf yn gallu cerdded ar fuanedd cyfartalog o 3 kmya. Wrth ddod yn ôl ar hyd yr un llwybr rwyf yn gallu cerdded ar fuanedd cyfartalog o 6 kmya. Faint yw fy muanedd cyfartalog ar gyfer y daith gyfan, mewn kmya?

a) 3  b) 4  c) 4.5  ch) 5  d) 6

8 Mae petryal $6 \times 8$ a phetryal $7 \times 9$ yn gorgyffwrdd fel hyn. Faint yw arwynebedd y rhannau sydd wedi'u lliwio, mewn unedau sgwâr?





a) 6  b) 21  c) 27  ch) 42  d) 69

9 Mae nifer o fyrddau a chadeiriau yn nhŷ Syr Wynff. Mae wyth person yn gallu eistedd o amgylch pob bwrdd siâp petryal, a phum person o amgylch pob bwrdd siâp cylch. Mae Syr Wynff yn gwahodd 35 o bobl i'w barti ac yn trefnu i bawb, gan gynnwys ef ei hun, eistedd wrth fwrdd. Beth yw'r nifer lleiaf o fyrddau y bydd angen iddo eu defnyddio, gyda phob bwrdd yn llawn?

a) 4  b) 5  c) 6  ch) 7  d) 8

10 Faint yw gwerth $x + y$?




a) 45  b) 50  c) 55  ch) 60  d) 65

11 Os yw $p + q = 5$, $r - q = 2$ a $p \times r = 10$ pa **un** o'r isod allai fod yn werth $p$?

a) 0  b) 1  c) 2  ch) 3  d) 4

*Ysgol*: ............................................................................ *Dosbarth*: .................................

*Enw*: ..............................................................................................................................

**ADRAN B**

1 O gychwyn gyda'r rhif 50, a gosod y digid 1 o'i flaen, cewch y rhif 150 sydd yn union **3 gwaith** y rhif cychwyn. [150 = 3 × 50]

i) Darganfyddwch rif fel bo'r ateb ar ôl gosod 1 o'i flaen yn

a) **6 gwaith** y rhif cychwyn. Ateb ________
b) **5 gwaith** y rhif cychwyn. Ateb ________

ii) A oes unrhyw rifau eraill sy'n rhoi'r atebion '**3 gwaith**' neu '**6 gwaith**' neu '**5 gwaith**'?

Atebion: a) **3 gwaith** ________________________________


b) **6 gwaith** ________________________________

c) **5 gwaith** ________________________________

iii) (*anoddach*) Darganfyddwch rif rhwng 100 a 200 fel bo'r ateb ar ôl gosod 1 o'i flaen yn **9 gwaith** y rhif cychwyn.

Ateb ____________

2 Gallwn lunio polygon ar y grid 4 × 4 hwn wrth gysylltu dotiau gyda llinellau syth. Mae’r diagram yn dangos polygon gyda phump ochr. Lluniwch bolygonau eraill gyda nifer gwahanol o ochrau. Pa niferoedd sy’n bosibl eu llunio? Beth yw’r nifer mwyaf? (Gofalwch nad yw unrhyw linell yn croesi llinell arall.)



| | | |
|---|---|---|
| nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ |
| nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ |
| nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ |
| nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ |
| nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ | nifer yr ochrau = ________ |

Y nifer mwyaf o ochrau yw __________